# Y Fframwaith hunan-adolygu

Becta

## Elfen 3 (Canllawiau)

# Dysgu ac addysgu

Mae’r canllaw yma i’r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 3. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i’ch barnau. Mae fersiwn arall o’r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae’r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio’r ddogfen honno cyn bwydo’r wybodaeth i mewn i’r system ar-lein, ond mae’n hanfodol eich bod yn cwblhau’r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio’r canllaw yma i’r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â’r disgrifiadau lefel yn Elfen 3 gan Becta i’ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â’ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen ‘Dysgu ac addysgu’.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio’r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na’r fersiwn papur.

ESIS

Ionawr 2009

www.becta.org.uk/schools/selfreviewframework

## Elfen 3 - Dysgu ac Addysgu

### 3a Y cynllunio, y defnydd a'r gwerthuso gan athrawon

Mae'r llinyn hwn yn ffocysu ar y ffordd y mae athrawon yn defnyddio TGCh yn y dosbarth i gefnogi a gwella addysgu, dysgu a chynhwysiad. Mewn ysgolion sydd wedi mewnosod TGCh o fewn eu dysgu a'u haddysgu, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o sut mae TGCh yn cefnogi'r prosesau hyn. Maent yn rheolaidd yn cynllunio at ei ddefnydd yn eu dysgo, yn darparu profiadau sydd wedi eu sylfaenu ar wybodaeth flaenorol o fedr TGCh disgyblion fel bod disgyblion yn cael eu herio gan eu defnydd o TGCh. Mae'r fath ysgolion hefyd yn gwerthuso' feirniadol sut y defnyddir TGCh yn rheolaidd ac yn rhannu eu meddyliau gyda chydweithwyr o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

| 3a-1 | Cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein Cynllunio ar gyfer defnyddio TGCh mewn dysgu ac addysgu yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| dangos hyder staff sy'n | isel iawn | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | uchel iawn |
| ymdrin â'r cwricwlwm | mewn ychydig feysydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yr holl feysydd |
| addas | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | bob amser |
| effeithiol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn llawn |
| greadigol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa gyfran o'r staff sy'n hyderus i adnabod cyfleoedd ar gyfer y defnydd o TGCh?
- Oes yna ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o beth sy'n gwneud defnydd priodol a/neu ddefnydd amhriodol o TGCh?
- Faint o staff sy'n cynllunio ar gyfer y defnydd o TGCh yn rheolaidd yn eu dysgu ac addysgu eu disgyblion?
- Oes yna staff sy'n gallu, ac yn ymestyn y defnydd o TGCh mewn ffyrdd creadigol ac arloesol newydd?

| 3a-2 | Cynllunio ar gyfer TGCh fel ffordd o hyrwyddo cynhwysiad | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein cynllunio ar gyfer ein defnydd o TGCh i hyrwyddo cynhwysiad ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| wedi ei gysylltu i bolisi cynhwysiad yr ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn llawn |
| yn cydnabod fod TGCh yn gallu ehangu cynhwysiad | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn llawn |
| yn cael ei rannu rhwng y staff | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn eang |
| yn cael ei weithredu gan | dim un o'r staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yr holl staff |
| yn cael ei atgyfnerthu gan hyfforddiant ac adnoddau | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn aml |
| yn ehangu mynediad at ddysgu i | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yr holl ddisgyblion |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae staff yn deall sut y gall TGCh gynorthwyo addysgu gwahanol grwpiau o ddisgyblion?
- Sut, yn ymarferol, y defnyddir TGCh i gefnogi anghenion addysgol gwahanol ddisgyblion?
- Oes yna bolisi ysgrifenedig neu gytunedig ynglŷn â sut y dylai TGCh gael ei ddefnyddio i gefnogi addysgu gwahanol grwpiau o ddisgyblion?
- Oes yna unrhyw strategaethau cytunedig am sut i ddefnyddio TGCh i gefnogi addysgu gwahanol grwpiau o ddisgyblion?
- Sut mae ymarfer da yn y maes hwn yn cael ei rannu o fewn a thu hwnt i'r ysgol?

## Elfen 3 - Dysgu ac Addysgu

### 3a Y cynllunio, y defnydd a'r gwerthuso gan athrawon

| 3a-3 Adeiladu ar ddysgu blaenorol | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae gwybodaeth ein hathrawon o ddysgu TGCh blaenorol y disgyblion...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei ddefnyddio wrth gynllunio gwersi | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| wedi ei sylfaenu ar dystiolaeth asesiad TGCh disgyblion | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| wedi ei sylfaenu ar brofiadau TGCh blaenorol y disgyblion | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| yn sicrhau lefel o newid mewn gwaith TGCh ar draws y cwricwlwm sy'n | isel iawn | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn uchel iawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae staff yn defnyddio tystiolaeth asesiad a'u gwybodaeth o fedrau TGCh disgyblion unigol wrth gynllunio gwersi yn cynnwys TGCh?
- Wrth gynllunio ar gyfer y defnydd o TGCH, ydy athrawon yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol disgyblion?
- Ydy'r holl ddisgyblion yn cael eu herio yn eu gwaith o ddefnyddio TGCh?
- Pa mor gyffredin ar draws yr ysgol y mae arfer da yn y maes hwn?

| 3a-4 Ehangder defnydd o TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddiwn TGCh mewn dysgu ac addysgu...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| ar draws | ychydig bynciau | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl bynciau |
| ar draws | ychydig ddosbarthiadau neu grwpiau blynyddoedd | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddosbarthiadau neu grwpiau blynyddoedd |
| pa mor aml | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa ganllawiau a ddarperir i staff ar y defnydd o TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu?
- Beth ydy'r defnydd mwyaf cyffredin o TGCh i gefnogi dysgu ac addysgu?
- Pa mor gyffredin ydy defnydd o TGCh ar draws grwpiau blwyddyn, cyfnodau a chyfnodau allweddol?
- Pa mor gyffredin ydy defnydd o TGCh ar draws gwahanol bynciau / meysydd cwricwlwm a sut mae'r ysgol yn gwybod hyn?
- Lle mae defnydd cryf a lle mae ardaloedd o dan ddefnydd?
- Sut mae defnydd safonol o TGCh i gefnogi dysgu ac addysgu yn cael ei adnabod a'i werthuso?

## Elfen 3 - Dysgu ac Addysgu

### 3a Y cynllunio, y defnydd a'r gwerthuso gan athrawon

| 3a-5 Ansawdd defnydd o TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae defnydd ein staff o TGCh mewn dysgu ac addysgu yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| dod â buddiannau clir | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| arwain at fwy o ddysgu gweithredol a rhyngweithiol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| mynd tu hwnt i ymdriniaethau traddodiadol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| ymestyn dysgu creadigol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| ymestyn dysgu annibynnol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| cyfoethogi cyfleoedd ar gyfer dysgu tu hwnt i'r ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae athrawon yn gyffredinol yn defnyddio TGCh yn eu dysgu?
- Beth ydy'r enillion addysgol i ddisgyblion sy'n deillio o ddefnydd athrawon o TGCh?
- Sut mae'r defnydd o TGCh wedi newid y ffordd y mae athrawon yn dysgu a phlant yn addysgu?
- Sut mae'r defnydd o TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu yn galluogi disgyblion i addysgu'n annibynnol tu hwnt i'r ysgol?

| 3a-6 Arfarniad beirniadol parhaus | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae arfarniad beirniadol o effaith TGCh gan ein staff yn...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| cynnwys | ychydig staff | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | y rhan fwyaf o'r staff |
| digwydd | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| canolbwyntio ar addysgu | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| canolbwyntio ar yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddysgu | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| cael ei rannu gyda chydweithwyr o fewn yr ysgol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| cael ei rannu gyda chydweithwyr tu hwnt i'r ysgol | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes yna unrhyw feini prawf cytunedig ar gyfer gwerthusiad o sut mae TGCh yn ehangu / gwella dysgu ac addysgu?
- Sut mae staff yn gwerthuso defnydd o TGCh a'i effaith ar addysgu'r disgyblion?
- Ble yn yr ysgol mae gwerthusiad beirniadol yn rhan o ymarfer cyson?
- Pa gyfran o'r staff sy'n gallu, ac yn ystyried yn feirniadol, ar eu defnydd o TGCh?
- Pa feysydd cwricwlaidd sydd fwyaf effeithiol mewn gwerthuso eu defnydd o TGCh?
- Ydy'r ysgol yn gwybod pam ei bod hi fel hyn?
- Oes yna gyfleoedd wedi eu cynllunio i staff rannu eu gwerthusiad gydag eraill, o fewn a thu hwnt i'r ysgol, a dysgu o'r broses hon?

**Tystiolaeth:**

Cynlluniau gwaith (pob pwnc). Cynlluniau gwersi unigol. Arsylwadau dosbarth. Trafodaethau gyda disgyblion, athrawon a staff ategol. Rhaglenni Addysg Unigol a rhaglenni addysgu eraill i ddisgyblion gydag anghenion arbennig. Polisi dysgu ac addysgu. Cynllun datblygu TGCh. Cynllunio TGCh traws-gwricwlaidd, yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd. Dogfennau perthynol i hunan-arfarniad unigol. Cynlluniau datblygiad personol/ logiau gweithredu/ logiau gweithredu. Dogfennaeth adolygiad a gwerthusiad cyfoedion myfyrwyr. Cynlluniau datblygiad a hyfforddiant mewn swydd i staff.

## 3b Dysgu gyda TGCh

Mae'r llinyn hwn yn ymchwilio i'r defnydd o TGCh o safbwynt y dysgwyr. Mae'n edrych ar beth ydy disgwyliadau disgyblion am eu defnydd o TGCh, pa gyfleoedd sydd ganddynt i ddewis pa un i ddefnyddio TGCh neu beidio a pha sgiliau sydd ganddynt i ddefnyddio adnoddau digidol. Lle mae arfer wedi ei ddatblygu'n dda, mae gan ddisgyblion ddisgwyliadau uchel a hyder y byddant yn gallu defnyddio TGCh pryd bynnag y teimlant ei fod yn briodol i'w dysgu, eu bod yn hyderus yn eu gallu i ddewis offer ac adnoddau TGCh priodol, a gwneud defnydd rhesymol a phriodol o amrywiaeth eang o adnoddau digidol. Mae'r fath ddisgyblion hefyd yn datblygu dealltwriaeth dda o sut mae TGCh yn galluogi iddynt ddysgu a gallu trafod hyn gydag esiamplau wedi eu tynnu o'u gwaith eu hunain.

| 3b-1 Dysgu disgyblion gyda TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wrth ddefnyddio TGCh i gefnogi eu dysgu mae ein disgyblion yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| gwneud penderfyniadau gwybodus am bryd i ddefnyddio TGCh | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| cael cyfleoedd i benderfynu defnyddio TGCh | mewn ychydig bynciau | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ar draws y cwricwlwm |
| gallu trosglwyddo eu medrau TGCh i sefyllfaoedd newydd | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| disgwyl defnyddio TGCh i gefnogi eu dysgu o fewn yr ysgol | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| disgwyl defnyddio TGCh i gefnogi eu dysgu tu hwnt i’r ysgol | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa gyfleoedd sydd yna i ddisgyblion wneud penderfyniadau deallus am ba bryd i ddefnyddio TGCh?
- Ydy'r cyfleoedd hyn ar gael ymhob dosbarth, grwpiau blwyddyn neu gyfnodau?
- Oes yna gyfleoedd ar gael yn yr holl feysydd pwnc / cwricwlwm?
- Ydy'r disgyblion yn cymryd y cyfleoedd hyn mewn dulliau priodol?
- Sut ydych chi'n gwybod pa ddewisiadau TGCh a wna'r disgyblion tu hwnt i'r ysgol?

| 3b-2 Defnydd effeithiol a diogel o adnoddau digidol | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wrth gael mynediad at, a defnyddio adnoddau digidol, mae nifer ein disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| sy’n ymwybodol o’r materion sy’n perthyn i ddefnydd diogel a chyfrifol o TGCh | yn ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyfan gwbl |
| sydd gyda’r sgiliau i wneud defnydd effeithiol o adnoddau digidol | yn ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyfan gwbl |
| sy’n mabwysiadu ymarfer diogel a phriodol o fewn yr ysgol | yn ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyfan gwbl |
| yn mabwysiadu arferion diogel tu hwnt i’r ysgol | yn ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyfan gwbl |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy staff yn ymwybodol o'r sgiliau sydd eu hangen ar y disgyblion i leoli, cael mynediad a defnyddio adnoddau gwe seiliedig?
- Oes yna unrhyw raglen gynlluniedig sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu sgiliau?
- Pa gyfran o'r disgyblion sydd â'r sgiliau priodol i wneud defnydd effeithiol o adnoddau addysgu gwe seiliedig o fewn thu hwnt i'r ysgol?
- Oes gan yr ysgol bolisi ar ddefnydd derbyniol, ac os oes, sut y gwneir disgyblion yn ymwybodol ohono?
- Ydy disgyblion yn ymwybodol o'r materion allweddol ar gyfer defnydd diogel a phriodol o adnoddau gwe seiliedig?
- Sut y dysgir disgyblion am gael mynediad at adnoddau yn ddiogel?
- Pa raglenni e-ddiogelwch sydd gan yr ysgol?
- Sut mae arferion diogel ac wedi eu gwarchod yn cael eu monitro ar draws yr ysgol?

| 3b-3 Dealltwriaeth disgyblion am eu dysgu gyda TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein disgyblion yn dangos sut mae eu defnydd o TGCh i gefnogi eu dysgu ...** | | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** | |
| drwy adnabod sut mae TGCh yn cefnogi eu dysgu | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn dda iawn |
| gydag enghreifftiau | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn dda iawn |
| drwy eu dealltwriaeth sy'n | gyfyngedig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | fyfyrgar |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa gyfleoedd sydd yna i ddisgyblion i drafod sut mae TGCh yn cefnogi eu haddysgu?
- Pa mor dda y gall disgyblion egluro, gydag enghreifftiau, sut mae TGCh yn cefnogi eu haddysgu?
- Pa mor gyffredinol ydy'r arferiad hwn ar draws yr ysgol ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion mewn gwahanol bynciau?
- Sut mae'r ysgol yn defnyddio, neu'n gweithredu ar ymatebion disgyblion am TGCh a'u haddysgu?

**Tystiolaeth:**
Cynlluniau gwaith (pob pwnc). Cynlluniau gwersi unigol. Arsylwadau dosbarth. Trafodaethau gyda disgyblion, athrawon a staff ategol. Dogfennaeth adolygiad a gwerthusiad cyfoedion disgyblion. Holiaduron neu arolygon disgyblion. Logiau addysgu neu ddyddiaduron disgyblion. Polisi ar ddefnydd derbyniol. Hyfforddiant mewn swydd a chynllunio datblygiad staff.

# Elfen 3 - Dysgu ac Addysgu

## 3c Arweinyddiaeth y dysgu ac addysgu

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r ffordd mae arweinwyr ar lefelau gwahanol yn yr ysgol yn hyrwyddo, ymchwilio a datblygu'r defnydd o TGCh o fewn eu dysgu a'u haddysgu. Mae ymarfer effeithiol yn sicrhau fod arweinyddiaeth yn y maes hwn yn cael ei arwain yn strategol ond yn cael ei hyrwyddo a'i weithredu'n gyson gan holl arweinwyr pwnc neu gwricwlwm; mae hyn hefyd yn sicrhau fod dilyniant ymarfer o fewn yr ysgol ac wrth drawsnewid. Bydd yr ysgolion hyn hefyd yn ymgymryd â gwerthusiad rheolidd ar effaith TGCh ar ddysgu ac addysgu ar bob lefel sy'n arwain at welliannau pellach. Mae'r fath ysgolion hefyd yn annog cymryd risg ac arloesiad sydd wedi'i gynllunio'n dda ac wedi ei werthuso a, lle mae'n briodol ymarfer newydd wedi ei fewnoli ar draws yr ysgol neu bwnc.

| 3c-1 Arweinyddiaeth dysgu ac addysgu gyda TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r arweiniad i ddysgu ac addysgu gyda TGCh yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| effeithiol a datblygu defnydd effeithiol ar draws dosbarthiadau / bynciau | yn ysbeidiol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyson |
| effeithiol arfarniad effeithiol o arferion yn y defnydd o TGCh | yn ysbeidiol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | systematig |
| cael ei gynllunio a'i arwain yn strategol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol iawn |
| cynnwys arweinwyr pwnc | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| yn sicrhau gweithrediad sydd | heb eu cyd-gysylltu | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyson |
| yn annog ac yn datblygu arferion creadigol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol iawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae arweinwyr pwnc yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i hybu a gwerthuso effeithiolrwydd defnydd o TGCh?
- Oes yna ymdriniaeth ysgol gyfan cytunedig i'r defnydd o TGCh mewn dysgu ac addysgu?
- Pa mor dda mae gwaith yn y maes hwn wedi ei gyd-gysylltu ar draws yr ysgol?
- Ydy arweinyddiaeth yn hybu datblygiad ymdriniaeth newydd yn y defnydd o TGCh mewn dysgu ac addysgu?
- Sut mae arferion newydd yn cael eu gwerthuso'n feirniadol?
- Sut mae effaith TGCh yn cael ei werthuso'n feirniadol gan yr ysgol?

| 3c-2 Trosglwyddo a phontio | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r broses o drosglwyddo a phontio rhwng blynyddoedd, cyfnodau allweddol, ysgolion a phartneriaid yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| cynnwys TGCh fel rhan o'u trefniadau cyffredinol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| hyrwyddo defnydd effeithiol o wybodaeth a drosglwyddwyd | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| hyrwyddo dilyniant mewn TGCh | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol |
| gweithio o fewn yr ysgol | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol |
| gweithio rhwng ysgolion a lleoliadau | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol |
| ddychmygus a rhagweithiol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Faint o wybodaeth am brofiad TGCh disgyblion a rennir ar drawsnewid neu drosglwyddiad?
- Ydy polisïau ar drawsnewid neu drosglwyddiad yn cynnwys addysgu TGCh y disgyblion?
- Pa ddefnydd a wneir o wybodaeth ynghlŷn â phrofiad TGCh disgyblion a enillwyd wrth drawsnewid neu drosglwyddo?
- Sut mae'r ysgol yn hyrwyddo parhad profiadau ac addysgu TGCh wrth drawsnewid neu drosglwyddo?

## Elfen 3 - Dysgu ac Addysgu

### 3c Arweinyddiaeth y dysgu ac addysgu

| 3c-3 Datblygu arferon gyda TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae datblygiad technolegau neu arferion newydd gyda TGCh ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei annog | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | bob amser |
| wedi ei ymgorffori i gynllunio cwricwlwm y dyfodol | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| wedi ei gynllunio a'i werthuso | yn anaml | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn gyson |
| yn cael ei rannu rhwng staff | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | bob amser |
| yn ehangu ffiniau defnydd o TGCh | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy staff yn cael eu hannog i drio syniadau newydd neu arloesol yn eu defnydd o gefnogi dysgu ac addysgu?
- Sut mae syniadau newydd neu awgrymiadau am arloesi yn cael eu cytuno arnynt, a'u gweithredu?
- Sut mae'r ysgol yn gwerthuso arloesiad, neu'n rhannu eu deilliannau o fewn neu tu hwnt i'r ysgol?
- Ydy'r enghreifftiau o arloesiadau wedi eu mewnoli'n llwyddiannus i arferion ar draws yr ysgol?

**Tystiolaeth:**
Cynlluniau Datblygu Ysgol / gynlluniau datblygu TGCh. Cynlluniau pwnc / cwricwlwm. Agenda a chofnodion cyfarfodydd pwnc / cwricwlwm. Cynllunio TGCh traws gwricwlaidd, yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd. Cynlluniau gwaith (pob pwnc) Cofnodion gwerthusiad gweithdrefnau, a thystiolaeth o gydweithrediad y broses hon. Trafodaethau gyda staff a disgyblion. Polisi ar gyfer trawsnewid/ trosglwyddo rhwng blynyddoedd, cyfnodau, a chyfnodau allweddol ac ysgolion. Trawsnewid/ trosglwyddo data a gwybodaeth. Adroddiadau, gwerthusiadau o unrhyw arloesiadau cynlluniedig neu ddatblygiad prosiectau. Adroddiadau a chofnodion llywodraethwyr.